Amgueddfa Genedlaethol Cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru

Arddangos Celf yng Nghymru

Crynodeb Gweithredol

Mae'r meddwl a'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn yn ffrwyth adolygiad o ddau gysyniad cysylltiedig: "Oriel Genedlaethol o Gelf Cymru" ac "Oriel Genedlaethol o Gelf Cyfoes", a drafodwyd eisoes mewn amrywiol fforymau yng Nghymru. Amgueddfa Genedlaethol Cymru (AOCC) a Chyngor Celfyddydau Cymru (CCC) gomisiynodd yr adroddiad oddi wrth DCA. Cynhaliwyd yr astudiaeth gan David Clarke a Peter Jenkinson.

Wrth gynnal yr astudiaeth, adeiladwyd ar beth wmbreth o waith ymgynghorol a strategol sydd eisoes ar gael, yn arbennig yr ymgynghori a fu ynghylch dogfen 'Golwg ar y dyfodol' yr Amgueddfa a'r 'Arolwg o orielau a mannau arddangos parhaol yng Nghymru' gan David Pratley Associates 2001 ar ran CCC.

Yn ogystal, yn ystod 2004/05 bu ymgynghori er mwyn edrych ar:

- Anghenion a dyheadau gwahanol gynulleidfaoedd a chymunedau'r celfyddydau ar draws Cymru
- Yr angen dybryd am le ac adnoddau ar gyfer gofalu am ac arddangos casgliadau helaeth a rhagorol yr Amgueddfa
- Canfyddiadau partneriaid casgliadau pwysig eraill
- Ymarferoldeb ac oblygiadau creu cyfleusterau a sefydliadau gan gynnwys cynaliadwyedd a denu cynulleidfaoedd sy'n bynciau real a phwysig
- Y tueddiadau a fydd yn sail i waith amgueddfeydd ac arddangos celf ledled y byd yn y blynyddoedd sydd i ddod
- Gweledigaethau strategol CCC a'r Amgueddfeydd, gan gynnwys cynllun corfforaethol y cyntaf a gweledigaeth ddatblygol yr ail gorff.

Nod yr awduron yw canfod man unigryw i Gymru, a strategaeth ar gyfer datblygiadau'r dyfodol, o fewn cyd-destun ehangach y tueddiadau a'r cyfeiriadau a geir ym maes y celfyddydau gweledol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae'r pwyntiau canlynol yn grynodeb o sylwadau'r adroddiad ynglŷn â chyd-destun datblygu ymagwedd Cymru tuag at arddangos celf. Mae rhifau'r tudalennau'n cyfeirio at y testun perthnasol yn y prif adroddiad.

1. Rhoddir cydnabyddiaeth gynyddol i rym economaidd y celfyddydau gweledol, a rôl sefydliadau arwyddocaol wrth arddangos celf. Mae effaith datblygiadau newydd mewn rhannau eraill o'r DU (Tate Modern, Baltic, Walsall ac eraill) ac yn Ewrop (Bilbao, Helsinki, Dulyn) yn brawf bod datblygu Amgueddfeydd ac orielau cyfoes yn gallu creu budd economaidd mesuradwy sylweddol ac ysgogi twf economaidd ehangach trwy ledaenu proffil ac enw da gwledydd a dinasoedd fel mannau creadigol a blaengar.

(Tudalennau 34, 43)

2. Bydd grym y celfyddydau gweledol i fynegi a dathlu hunaniaeth a gwahaniaethau cenedlaethol yn sail i ragor o ddatblygiadau rhyngwladol ffyniannus yn sector orielau ac amgueddfeydd – a hynny yng nghyd-destun rhyngwladiaeth a dealltwriaeth o'r cyd-destun rhyngwladol i gelf. Dylai unrhyw sefydliad newydd gael perspectif 'Cymreig' clir ond ni ddylai fod yn amgueddfa neu oriel o gelf Cymreig. (Tudalennau 22, 23)

3. Bydd pwysigrwydd casgliadau, a'r straeon a adroddir ganddynt, yn parhau, ond bydd cynulleidfaoedd yn edrych arnynt mewn cyd-destun cynhwysol yn hytrach nag un dethol; ni ddylid gwahanu'r hanesyddol o'r cyfoes. Bydd angen i'r casgliad parhaol dyfu ac esblygu a hwyrach ceir arddangosfeydd thematig byrrach a thros dro, ochr yn ochr ag arddangosfeydd a digwyddiadau teithiol, amrywiol ac aml-gyfrwng. (Tudalennau 25, 26)

4. Bydd addysg, ymchwil a dehongli'n egwyddorion sylfaenol i'r hyn oll a wneir gan y genhedlaeth newydd o amgueddfeydd ac orielau. (Tudalennau 28,29)

5. Bydd yn rhaid wrth ystwythter a hyblygrwydd er mwyn bodloni'r gofynion hyn – a bydd gofyn eu bod wedi'u gwreiddio mewn sefydliadau cynaladwy, cadarn, hir-dymor sydd â chynulleidfaoedd sylweddol yn lleol, cenedlaethol ac ymhlith ymwelwyr diwylliannol ac eraill. (Tud 46-50)

Bu adroddiad ymgynghoriadau Golwg ar y Dyfodol a gyhoeddwyd yn 2003 nodi'r casgliadau canlynol ynglŷn â'r modd y gellid cynrychioli'r cyd-destunau hyn yn natblygiad y cyfleusterau a'r rhaglenni ar gyfer arddangos celf yng Nghymru:

"Ceir cefnogaeth gadarn o blaid:
- Datblygu'r rhaglen Bartneriaeth
- Cynlluniau eraill fydd yn dwyn Casgliadau'r Amgueddfa ger bron cynulleidfa eang
- Datblygu "Oriel Genedlaethol", gan ffafrio ei leoli yng Nghaerdydd fel "adain ogleddol' i'r Amgueddfa
- Iddo fod yn adnodd a fydd yn seiliedig ar gasgliad ond na fydd yn cael ei redeg gan yr Amgueddfa ond yn hytrach gan fewnbwn creadigol priodol a atgyfnerthir gan gyfleusterau cyfoes
- Bod hyn yn cadw celf Cymru mewn cyd-destun rhyngwladol.

Atgyfnerthir a chefnogir y canfyddiadau hyn ynghylch arddangos celf gan adolygiad Pratley. O'r herwydd, mae'r astudiaeth gyfredol gymaint a hynny'n gryfach yn sgîl yr ymgynghori sylweddol, y meddwl a'r trafod a'i rhagflaenodd.

Mae'r astudiaeth hon wedi canolbwyntio ar roi'r cynigion hyn ar brawf yng nghyd-destun y tueddiadau a'r cyfeiriadau a drafodwyd uchod a'u hoblygiadau ymarferol i Gymru. I grynhoi, mae ein casgliadau fel a ganlyn:

6. Mae Cymru'n wynebu mwy nag un her a bwlch os yw i ddiwallu disgwyliadau'r gynulleidfa a chwarae'i rhan ar lwyfan diwylliant gweledol rhyngwladol. (tud 14,40)

7. Mae'r her yn cynnwys arddangos a dehongli y casgliadau celf yn gywir yng wyneb cyfyngiadau difrifol o ran lle ac adnoddau; trefnu a datblygu mannau ar gyfer casgliadau ac ymchwil; y dasg ddeublyg o bortreadu etifeddiaeth artistig unigryw Cymru a galluogi cynulleidfaoedd i weld y gelfyddyd orau o bob cwr o'r byd ac o bob cyfnod gan gynnwys gwaith cyfredol. (tud 30-35)

8. Ni all un adeilad neu un prosiect ddiwallu'r sialensau hyn i gyd. Os yw Cymru i fanteisio ar botensial mynegiadol, addysgiadol, economaidd a diwylliannol y celfyddydau gweledol bydd angen ystyried datblygu mwy nag un ateb.

9. Mae Oriel Genedlaethol newydd yn ddyhead dilys i Gymru. Rhaid i Oriel Genedlaethol feddu ar gymeriad Cymreig amlwg ond ni ddylai fod yn Amgueddfa o Gelf Cymru yn unig. Yn hytrach, rhaid i gelf Cymru a chelf y byd fod ymhlygl yn y stori a gyflwynir i'r gynulleidfa. (Tud 22)

10. Dylai Oriel Genedlaethol fod yn seiliedig ar arddangos y casgliadau a hanes celf ynghyd â dealltwriaeth feirniadol o'r celfyddydau cyfoes a disgyblaethau eraill a meddu ar strategaethau hyblyg a newidiol o ran arddangos ac addysg. (Tud 30-36)

11. Y ffefryn amlwg o ran lleoliad, a hwyrach yr unig ddewis ymarferol ar gyfer datblygu Oriel Genedlaethol yw bod yn rhan o Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Mae dadleuon cryf o blaid datblygu adeilad newydd yn gysylltiedig â'r safle ym Mharc Cathays ac mae'r cynigion ar gyfer lleoli'r Oriel Genedlaethol rhywle arall yng Nghymru yn rhai arwynebol a dweud y lleiaf.
(Tud 56)

12. Bydd sefydlu Oriel Genedlaethol newydd yn gryn sialens ond un a hwylusir gan yr oriel bresennol a'r oriel arfaethedig ar lawr cyntaf yr Amgueddfa ym Mharc Cathays. Yn ei dro gall creu adeilad newydd o bwys, cyfleusterau newydd o ran mynediad a gwasanaethau newydd i ymwelwyr fod yn fanteisiol iawn i'r Amgueddfa.

13. Mae creu Oriel Genedlaethol yn estyniad rhesymegol i'r cynnig a wneir yn yr adroddiad 'Golwg i'r Dyfodol' ar gyfer creu, yn y tymor canolig, Amgueddfa Gelf Genedlaethol newydd ar hyd llawr cyntaf yr adeilad ym Mharc Cathays; mae hwn yn gam hanfodol ac yn un sydd ei angen ar frys o ran casgliadau a strategaethau arddangos yr Amgueddfa Genedlaethol. (Tud 31)

14. Fe gymer amser i ddatblygu, manylu, dylunio a gwireddu'r Oriel Genedlaethol newydd ei hun, ond gellir ysgogi gweithgarwch gwirioneddol ac amlwg yn ystod y blynyddoedd hyn roi ystyriaeth fanwl i gynnwys, dehongliadau a dyluniad yr oriel newydd hwn a hynny fel rhan o ad-drefnu arfaethedig Parc Cathays yn 2008 i ddechrau, a fydd yn gweddu i'r dim ac yn braearu'r tir ar gyfer datblygiad mwy yn nes ymlaen. (Tud 33)

15. Ar yr un pryd, erys y bwlch yn y ddarpariaeth a nodwyd gan Pratley Associates o ran ffocws cenedlaethol ar gyfer celf gyfoes. Byddai datblygu Canolfan Genedlaethol i Gelf Gyfoes yn gam priodol ac ysbrydoledig o ran meithrin diddordeb cynulleidfa, a gwaith artistiaid a churaduriaid yng Nghymru. (Tud 36)

16. Cai'r sefydliad newydd hwn ei leoli o fewn rhwydwaith yr orielau rhanbarthol a gefnogir gan CCC ac y mae CCC wedi buddsoddi ynddynt dros y blynyddoedd diwethaf. Byddant yn meddu ar y cyfleusterau priodol o ran maint a math o le a fyddai'n galluogi Cymru i gyfranogi'n helaethach ar lwyfan rhyngwladol celf weledol ac i gael y budd mwyaf posib o fentrau tebyg i arddangosfeydd Biennale Fenis. (Tud 37).

17. Mae mwy nag un darpar safle ar gyfer datblygiad o'r fath yng Nghymru, ond bydd materion dyrys ynghylch adnoddau, partneriaethau, y ddarpariaeth bresennol a'r gynulleidfa yn sicir yn ddylanwadol wrth benderfynu ble i sefydlu canolfan o'r fath. (Tud 51)

18. Rhaid i unrhyw rai o'r datblygiadau cenedlaethol newydd hyn fod yn seiliedig ar waith parhaus yr CCC a'r Amgueddfa fel ei gilydd i flaenoriaethu orielau rhanbarthol Cymru trwy raglenni partneriaeth. (Tud 20)

19. Bydd buddsoddiad parhaus CCC i arfer artistiaid, hyfforddi a datblygu curaduron a meithrin cynulleidfaoedd yn allweddol yng nghyfnod datblygu'r ddwy elfen newydd bosib i seilwaith ddiwylliannol Cymru. Yn yr un modd, bydd angen i'r Amgueddfa gael y maen i'r wal o ran cyflawni casgliadau yr adolygiad a wnaed o'i gweledigaeth hi ar gyfer datblygu galluoedd a pherthnasau newydd â chynulleidfaoedd. (Tud 41, 48)

20. Y buddsoddiadau a wneir yn awr yn y meysydd hyn fydd yn sail i lwyddiant unrhyw sefydliad newydd. Ers cyhoeddi adroddiad Pratley mae CCC wedi buddsoddi'n sylweddol yn strwythur mewnol orielau rhanbarthol Cymru ac o ran datblygu gwaith curadurol a meithrin cynulleidfaoedd. Yn yr un modd, mae'r Amgueddfa wedi datblygu'r rhaglen Cyfoeth Cymru Gyfan a'i gwaith addysg a dehongliadol ei hun. Ni all yr un o'r sefydliadau gyflawni'r gwelliannau arfaethedig hyn i'r gwaith o arddangos celf yng Nghymru ar eu pen eu hun, a rhaid o hyd

wrth bartneriaeth lawn Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr Awdurdodau Lleol a Phrifysgolion Cymru. (Tud 51)

21. Fel rhan o strategaeth gydlynol ar gyfer gwireddu un neu'r ddau sefydliad cenedlaethol newydd hyn, neu fel datblygiad pwysig iawn ynddo'i hun, hwyrach gellid rhoi'r flaenoriaeth i ganolfan ymchwil, archif ac addysg ar gyfer y celfyddydau gweledol yng Nghymru, a hynny o bosib gyda phartner o faes addysg uwch. (Tud 50,51)

22. I grynhoi, mae bylchau amlwg yn y ddarpariaeth bresennol. Mae mwy nag un bwlch i'w lenwi ac yn yr un modd bydd galw am fwy na gwaith datblygu'n unig i'w llenwi. Mae rhesymeg clir o blaid dau ddatblygiad mewnstrwythurol sylweddol a fydd yn cyflawni gwahanol amcanion ond heb eu gorfodi i weithredu ar wahân, gan olygu nad allai'r naill na'r llall gyfuno yr hanesyddol a'r cyfoes yn ddeallus i'w rhaglenni a'u dehongliad o gelf Cymru a gweddill y byd. (Tud 40)

23. Pe gellid gwireddu'r prosiectau hyn byddai Cymru ar ei hennill o ran cyfoeth ei bywyd diwylliannol, addysg ac ymgysylltu â phobl ifanc, llewyrch ei hartistiaid a'r economi ehangach, ei phroffil rhyngwladol a'i henw da o ran creadigrwydd y wlad â'i mynegaint o'i hunaniaeth unigryw.